# YMATEB I’R YMGYNGHORIAD GAN DOUGLAS BAIN CBE TD

## Cyflwyniad

Mae'r atebion a'r argymhellion yn yr ymateb hwn wedi cael eu cyfoethogi gan fy mhrofiad fel Comisiynydd Safonau Cynulliad Gogledd Iwerddon o 2012 i 2017 ac fel Comisiynydd Safonau Dros Dro’r Senedd er mis Tachwedd 2019.

**Ateb 1.** Rwy'n croesawu'r newid i God sy'n seiliedig yn bennaf ar reolau ac sydd wedi'i ategu gan egwyddorion trosfwaol. Credaf y bydd hyn yn cynorthwyo Aelodau, y cyhoedd a'r Comisiynydd i ddehongli a chymhwyso'r Cod yn briodol.

**Ateb 2.** Credaf y dylai'r sefyllfa bresennol barhau, sef bod y Cod yn gymwys i Aelodau bob amser, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Ar brydiau, gall ymddygiad Aelodau yn eu bywydau preifat a theuluol adlewyrchu'n wael, nid yn unig ar yr Aelodau eu hunain ond hefyd ar y Senedd fel sefydliad. Yn absenoldeb unrhyw ffordd arall o ddelio ag ymddygiad o'r fath, megis gweithdrefn deisebu i adalw, rhaid iddo fod yn agored i'r broses gwynion. Os nad ydyw, mae risg y bydd y Senedd yn ymddangos fel pe bai'n derbyn ymddygiad o'r fath, a gallai hynny danseilio hyder y cyhoedd yn y sefydliad ymhellach.

*Sylwadau eraill ar Ran 1*

Paragraff 2 - byddai rhoi 'ofynnir' yn lle 'ddisgwylir' yn llinell 1 yn atgyfnerthu natur orfodol cydymffurfio â'r egwyddorion a byddai’n gyson â pharagraff 6 o'r Cod drafft

Paragraff 3 - croesewir y camau i ffurfioli'r arfer hirsefydlog, ond credaf y dylid ystyried darpariaeth sy'n caniatáu i'r Llywydd neu Gadeirydd atgyfeirio mater at y Comisiynydd i'w ymchwilio. Gall y byddai angen ymchwilio i ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn neu mewn pwyllgor ac mai’r Comisiynydd yn unig a fyddai â'r pwerau statudol gofynnol i ymchwilio i’r mater. Ymhellach, byddai cynnal ymchwiliad o'r fath yn tynnu sylw’r Llywydd neu Gadeirydd oddi ar eu gwaith allweddol.

Paragraff 5 - ceir nifer sylweddol o gwynion bob blwyddyn am safon y gwasanaeth mae Aelodau yn ei ddarparu (8 yn 2019-20) ac am ymddygiad Gweinidogion (3 yn 2019-20). Mae delio â'r cwynion hyn yn gwastraffu adnoddau ac mae'n amlwg bod rhai achwynwyr yn teimlo iddynt gael cam pan ddywedir wrthynt nad yw eu cwyn yn dderbyniadwy. Dylid ystyried cynnwys testun sy’n ei gwneud yn glir nad yw'r Cod yn gymwys i ymddygiad Aelod sy’n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog, a bod y Cod yn gymwys i ymddygiad Aelodau ac nid i safon y gwasanaeth maent yn ei ddarparu.

**Ateb 3.** Mewn egwyddor rwy'n croesawu'r ymgais i wneud y testun esboniadol ar gyfer pob Egwyddor yn fwy perthnasol i rolau Aelodau. Trwy gydol y testun esboniadol dylid defnyddio 'rhaid' yn lle 'dylai' lle bynnag y mae'n digwydd. Rwy'n cwestiynu'r defnydd o 'gryfhau' yn nhestun Egwyddor Uniondeb a 'hyrwyddo' yn nhestun Egwyddorion Parch ac Arweinyddiaeth. Gellid dehongli'r geiriau hyn i olygu bod yn rhaid i bopeth y mae Aelodau'n ei wneud geisio cynyddu hyder yn uniondeb y Senedd ac ati ac ymdrechu i gynyddu cyfle cyfartal a'r holl Egwyddorion eraill. Yn ymarferol, bydd mwyafrif gweithredoedd yr Aelodau yn niwtral o ran y materion hyn. Mae'r geiriad cyfredol yn creu risg o gwynion a allai fod yn dderbyniadwy yn dechnegol, ond a fyddai'n ymwneud ag ymddygiad nad yw mewn unrhyw ffordd yn lleihau hyder yn uniondeb y Senedd na'r Egwyddorion eraill. Mae gwella hyder y cyhoedd a chyfle cyfartal a chefnogi'r Egwyddorion yn amcan canmoladwy, ond ni chredaf y dylai hynny fod yn ddyletswydd y byddai methu ynddi'n golygu bod y Cod yn cael ei dorri. Credaf y dylid ystyried y diwygiadau canlynol -

- Egwyddor Uniondeb - rhoi 'peidio â thanseilio' yn lle 'cynnal ac yn cryfhau'
- Egwyddor Parch - diwygio i ddarllen 'Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn ffyrdd sy'n lleihau cyfle cyfartal a pheidio ag…'
- Egwyddor Arweinyddiaeth - rhoi 'gefnogi'r' yn lle 'hyrwyddo a chefnogi'r'.

**Ateb 4.** Yn amodol ar y sylwadau yn Ateb 3, rwy'n croesawu cynnwys Egwyddor Parch newydd.

Credaf y dylid ystyried ymhellach y diffiniadau ym mharagraff 8 o'r Cod drafft i sicrhau bod y cyfyngiadau hyn ar yr hawl i ryddid mynegiant y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 10.1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gydnaws ag Erthygl 10.2.

Mae'n anodd gweld sut mae'r diffiniad o fwlio ym mharagraff 8(1) o'r Cod drafft yn gyson â thestun y Canllawiau ar Ymddygiad Amhriodol sy'n cyd-fynd â'r Polisi Urddas a Pharch, gan yr ymddengys fod angen iddo fod yn 'ymddygiad annerbyniol parhaus (neu'n un weithred annerbyniol ddifrifol)'

At hynny, o dan y Polisi, mae'n amlwg bod bwriad y tramgwyddwr yn amherthnasol wrth benderfynu a yw ymddygiad yn amhriodol ai peidio. Nid oes darpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn y Cod drafft.

Er mwyn ymochel rhag y risg o gwynion di-sail neu ffug bod Aelod wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfateb i unrhyw un o'r mathau o ymddygiad a bennir ym mharagraff 8 o'r Cod drafft, dylid ystyried prawf rhesymoldeb tebyg i'r un ym mharagraff 9(6) o'r drafft.

Ymddengys nad yw paragraff 8(2) yn gwahaniaethu rhwng gwahaniaethu cyfreithlon a gwahaniaethu anghyfreithlon neu annerbyniol.

**Ateb 5.** Yn ychwanegol at y pwyntiau ar reolau penodol a nodir isod mae gennyf ddau bwynt cyffredinol y dylid eu hystyried, yn fy marn i. Yn gyntaf, byddai'r Rheolau yn gliriach o'u fframio i gyd naill ai fel pethau y mae'n rhaid i Aelodau ei wneud neu fel pethau y mae'n rhaid i Aelodau beidio â'i wneud, yn hytrach na chymysgedd o'r ddau. Yn ail, byddai eu disgrifio fel Rheolau yn gwella eglurder a hwylustod. Byddai mabwysiadu'r awgrymiadau hyn yn arwain at fformat fel a ganlyn -

'Rheol 1. Rhaid i chi gynnal yr Egwyddorion Trosfwaol

Rheol 2. Rhaid i chi weithredu'n onest wrth gynnal busnes cyhoeddus.'

Is-baragraff 9(2) - mae cyfyngu'r gofyniad i weithredu'n onest i fusnes cyhoeddus yn anghyson â chymhwyso'r Cod i ymddygiad Aelodau bob amser, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Is-baragraff 9(4) - mae angen ei ystyried ymhellach - gweler fy sylw ar baragraff 8(2) yn Ateb 4 uchod.

Is-baragraff 9(5) - byddai'r ddarpariaeth hon, fel y'i drafftiwyd, yn debygol o beri anhawster sylweddol oherwydd diffyg unrhyw ddiffiniad. Beth yw'r gyfraith droseddol? A yw'n cynnwys mân droseddau traffig ar y ffyrdd? Sut y caiff ei benderfynu lle mae Aelod wedi cynnal y gyfraith? Mae'n syml lle cafwyd euogfarn neu lle y cafwyd rhybudd ffurfiol. Ond beth yw'r sefyllfa os na chafwyd y rhain? Efallai nad oedd tystiolaeth ddigonol i gyrraedd y safon profi troseddol. A fyddai'n rhaid i'r Comisiynydd wedyn ymchwilio i gŵyn i weld a yw'r dystiolaeth yn ddigonol ar gyfer y safon sifil? Er nad yw'n ddelfrydol, dylid ystyried mabwysiadu gofyniad Gogledd Iwerddon, sef yr ystyrir bod Aelodau wedi methu â chynnal y gyfraith droseddol dim ond lle y'u cafwyd yn euog neu lle maent wedi cael rhybudd ffurfiol. Gellid delio ag achosion mân o dorri'r gyfraith droseddol o dan y newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn gwynion a nodir yn Ateb 8 isod.

Is-baragraff 9(6) - mae'n ymddangos bod y ddarpariaeth hon yn ddiangen gan y byddai'r ymddygiad yn dod o dan baragraff 9(1).

Is-baragraff 9(8) - mae'r ddarpariaeth hon yn ddiangen gan ei bod, yn rhinwedd adran 6(3)(a)(i) o'r Mesur, yn fuddiant perthnasol. Mae gan y Comisiynydd bŵer eisoes i ymchwilio i gŵyn yn ymwneud â thorri'r rheolau. Dylid ystyried dileu'r ddarpariaeth hon yn ei chyfanrwydd neu ddileu'r cyfan ar ôl 'Senedd' i'w gwneud hi'n ddyletswydd i gydymffurfio â Rheolau Sefydlog yn gyffredinol.

Is-baragraff 9(13) - nid yw'n glir pa 'swyddogion' a olygir o dan y ddarpariaeth hon. O ystyried bod y Cod yn cael ei gymhwyso'n eang, mae dadl gref y bydd yn cwmpasu unrhyw swyddog a gyflogir gan awdurdod cyhoeddus.

Is-baragraff 9(14) - heb ragfarnu fy sylwadau isod ar baragraff 11 isod, credaf y dylid ymestyn y ddyletswydd i beidio ag ymyrryd i gynnwys ymyrraeth â dyletswyddau'r Comisiynydd Safonau.

Is-baragraff 9(17) - dylid ymestyn y ddyletswydd hon fel y bydd hefyd yn gymwys i'r dyletswyddau a nodir yn Rhan 4.

Rhan 4 - Credaf y dylid cynnwys y dyletswyddau sydd yn Rhan 4 ar hyn o bryd yn Rhan 3. Gall eu gwahanu greu argraff gamarweiniol eu bod yn wahanol mewn rhyw ffordd i'r dyletswyddau yn Rhan 3. Yna gellid dileu paragraff 10.

Paragraff 11 - O gofio bod y Cod yn gymwys i Aelodau bob amser a beth bynnag fo'r amgylchiadau, mae'r testun hyd at ddiwedd 11(4) yn ddiangen.

Byddai'n well pe bai is-baragraffau 11(i) i (iv) yn rheolau ar wahân.

Is-baragraff 11(ii) - fe all fod trefn y geiriau yn haeddu sylw - gallai 'unrhyw reolau a wnaed gan y Senedd o dan y Mesur' fod yn gliriach.

Is-baragraff 11(iv) - dylai'r ddyletswydd i beidio â lobïo gael ei ymestyn i wahardd lobïo staff y Comisiynydd neu'r Comisiynydd

Is-baragraff 11(v) - o ystyried yr ymddygiad a nodwyd yn ystod fy amser fel Comisiynydd Gweithredol, credaf fod dadl gref dros ehangu y ddarpariaeth hon i gynnwys dyletswydd i beidio â sybornu na cheisio sybornu tystion.

Paragraff 12 - dylid ei ehangu i wahardd camliwio unrhyw argymhelliad a wneir gan y Comisiynydd Safonau.

Yn ddarostyngedig i'r argymhellion uchod, credaf fod y rheolau arfaethedig yn ddigon clir, bod pob un ohonynt yn angenrheidiol, ac nad oes angen unrhyw reolau pellach.

**Ateb 6.** Rwy'n croesawu'r ddarpariaeth arfaethedig o Ganllawiau annibynnol. Yn ychwanegol at y pynciau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, byddai'n ddefnyddiol pe bai hefyd yn cwmpasu'r meini prawf derbyniadwyedd. Gallai hynny leihau nifer y cwynion annerbyniadwy sy'n dod i law.

**Ateb 7.** Byddai cynnwys enghreifftiau yn gwneud y canllawiau arfaethedig yn gliriach a byddai hynny i'w groesawu. Dylai'r enghreifftiau gwmpasu cwynion a fyddai'n annerbyniadwy. Mae'n hanfodol bod cydweithio agos gyda'r Comisiynydd o'r cychwyn cyntaf wrth ddatblygu unrhyw ganllawiau o'r fath.

**Ateb 8.** Dyma'r amser priodol i gynnal adolygiad sylfaenol o ddogfennau'r weithdrefn gwynion, gyda'r nod o'u gwneud yn fwy manwl gywir, dileu darpariaethau diangen a chyflwyno darpariaethau newydd i ddelio â materion sydd wedi dod i'r amlwg ers i'r fersiwn gyfredol gael ei chymeradwyo yn 2013. Mae dogfen 2013 yn cynnwys disgrifiad o'r broses a'r rheolau y mae'n rhaid eu dilyn. Rwy'n argymell gwahanu'r ddwy elfen a drafftio'r rheolau yn fwy pendant na'r rhai yn nhestun 2013. Byddai arddull sy'n agosach at y ddarpariaeth gywerth a ddefnyddir yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon (Assembly Members (Independent Financial Review and Standards) Act (Northern Ireland) 2011 (General Procedures) Direction 2016) yn fwy priodol. Gellid hepgor llawer o'r darpariaethau cyfredol yn gyfan gwbl, eu cyfuno neu eu cwtogi. Dylid cofio nad oes dim dau ymchwiliad yr un fath ac, yn amodol ar gydymffurfio â'r Mesur a'r gweithdrefnau newydd, dylid gadael i'r Comisiynydd benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o ddelio â phob cwyn.

O dan y weithdrefn bresennol, nid oes ffordd o herio penderfyniad y Comisiynydd ynghylch derbyniadwyedd cwyn. Mae mwyafrif y penderfyniadau ynghylch derbyniadwyedd yn glir, ond mae rhai penderfyniadau, yn enwedig yn ymwneud â chwynion am farn a fynegwyd gan Aelod, lle mae dadl ar y ddwy ochr. Credaf y dylai penderfyniad bod cwyn yn annerbyniadwy fod yn agored i'w herio trwy hawl newydd i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

Yn amlinellol, y byddai'r weithdrefn atgyfeirio newydd fel a ganlyn -

- Byddai'r Comisiynydd yn hysbysu'r achwynydd o'r penderfyniad bod y gŵyn yn annerbyniadwy, y rhesymau dros hynny a'r hawl i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor ar gyfer ei ailystyried.
- I arfer yr hawl honno, byddai'n rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Comisiynydd o fewn cyfnod rhagnodedig.
- Pe na ddeuai hysbysiad i law o fewn y cyfnod hwnnw, byddai'r mater yn dod i ben a byddai'r penderfyniad ynghylch derbyniadwyedd yn sefyll.
- Pe bai hysbysiad yn dod i law, byddai'r Comisiynydd yn cyfeirio'r mater at y Pwyllgor, gan roi'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol.
- Pe bai'r Pwyllgor yn cytuno â'r penderfyniad hwnnw, byddai'r Comisiynydd yn cael gwybod a byddai'r Comisiynydd, yn ei dro, yn rhoi gwybod i'r achwynydd.
- Pe na bai'r Pwyllgor yn cytuno ar benderfyniad y Comisiynydd, byddai'n cael ei gyfeirio'n ôl ar gyfer ei ailystyried.
- Pe bai'r Comisiynydd, wedi ailystyried y mater, yn dyfarnu bod y gŵyn yn dderbyniadwy, byddai'r achwynydd yn cael gwybod a byddai'r mater yn symud i ymchwiliad ffurfiol.
- Pe bai'r Comisiynydd yn parhau i fod o'r farn bod y gŵyn yn annerbyniadwy, byddai'n dweud hynny wrth y Pwyllgor, gan roi'r rhesymau.
- Pe bai'r Pwyllgor yn parhau i anghytuno â phenderfyniad y Comisiynydd, byddai'r mater yn cael ei gyfeirio'n ôl a byddai'r Comisiynydd, ar ôl hysbysu'r partïon, yn dechrau ymchwiliad ffurfiol

Gallai hynny ymddangos yn gymhleth, ond yn ymarferol byddai'n syml ac yn gofyn am ychydig o adnoddau. Mae'n debygol mai ychydig iawn o achwynwyr a fyddai'n arfer yr hawl i atgyfeirio ac mai anaml y byddai'r Pwyllgor yn anghytuno â phenderfyniad y Comisiynydd. Mae hawl adolygu debyg ar gael o dan weithdrefn gwynion Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Dylai'r weithdrefn newydd gael ei chynnwys, gan rymuso'r Comisiynydd i ddod ag unrhyw ymchwiliad i ben os yw'n fodlon -

- bod yr achwynydd, heb esgus rhesymol, wedi methu â chydweithredu â'r Comisiynydd;
- bod y gŵyn yn un flinderus;
- nad yw'r ymddygiad honedig yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ystyriaeth bellach;
- nad yw'r achwynydd yn mynnu parhau â’r gŵyn mwyach;
- nad yw dioddefwr yr ymddygiad honedig, na wnaeth y gŵyn, am i'r gŵyn fynd yn ei blaen;
- bod y gŵyn yn debyg iawn i honiad sydd eisoes wedi cael ei ystyried gan y Comisiynydd ac na ddarparwyd tystiolaeth ychwanegol sylweddol;
- byddai'n fwy priodol i’r heddlu neu gorff cyhoeddus arall ymchwilio i’r gŵyn ;
- nad fyddai bwrw ymlaen i ystyried y gŵyn er budd y cyhoedd; neu
- fod yr achwynydd neu unrhyw berson arall, heb reswm da, wedi peri i'r gŵyn gael ei chyflwyno y tu allan i'r cyfnod rhagnodedig.

Heblaw am yr un ddiwethaf, mae pob un o’r senarios hyn wedi codi yn ystod fy nghyfnod yng Ngogledd Iwerddon: nid yw gweithdrefn bresennol y Senedd yn darparu ar gyfer yr un ohonynt. Nodwyd yr angen i ddarparu ar gyfer y senario ddiwethaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd cwyn am ymddygiad ei chyflwyno ymhell y tu allan i'r terfyn amser cyfredol, ond roedd rhaid ei hystyried yn dderbyniadwy am mai ychydig iawn cyn hynny yr oedd Aelod wedi rhannu â’r achwynydd y wybodaeth a oedd yn sail i’r gŵyn. Roedd gan yr Aelod y wybodaeth honno ers amser yr ymddygiad y gwnaed y gŵyn yn ei gylch. Defnyddiodd yr Aelod y ddyfais o roi’r wybodaeth i un o'i gefnogwyr i osgoi'r terfyn amser o 12 mis ac er mwyn i’r gŵyn gael ei gwneud ar adeg o'i ddewis ei hun.

Fel mesur diogelu, byddai arfer y pŵer i roi'r gorau i ystyried cwyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn atgyfeirio a amlinellir uchod.

Nid yr ymateb hwn i’r ymgynghoriad yw’r lle i nodi'r nifer fawr o fân newidiadau y gellid eu gwneud i wella'r weithdrefn gwynion. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â gwaith y Comisiynydd Safonau, ac rwy’n pwyso am yr ymgynghoriad agosaf rhwng y swyddog sydd â'r dasg o ddrafftio'r ddogfen weithdrefn newydd a'r Comisiynydd. Isod, rwy’n cyfyngu fy sylwadau i’r rhannau o destun 2013 sydd angen eu hadolygu fwyaf –

- Adran 3 - ym maen prawf v., dylid byrhau'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i chwe mis (gweler Ateb 10 isod); ym maen prawf vi., dylid newid 'os yw'n ymddangos bod digon o sylwedd' i 'os oes digon o sylwedd' - mae'r gair 'ymddangos' yn ychwanegu dim ac mae wedi drysu rhai achwynwyr
- Adran 5 - nid oes diben i'r adran hon; dylid ei hepgor. Os yw'r Comisiynydd yn fodlon bod Aelod wedi methu â chydweithredu â'r ymchwiliad fel sy'n ofynnol ym mharagraff 15 o'r Cod Ymddygiad, gellir cynnwys y casgliad hwnnw yn adroddiad yr ymchwiliad.
- Paragraff 6 - dylid ehangu is-baragraff (ii) i ganiatáu i'r Comisiynydd gyfeirio ymddygiad troseddol nid yn unig at yr heddlu, ond hefyd at asiantaethau gorfodi'r gyfraith priodol eraill.
- Paragraff 7.3 - ymddengys fod hon yn ddiangen. Oni wahoddir y Comisiynydd, nid yw'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor.
- Adran 8 - dylid ei hepgor (gweler Ateb 12 isod)
- Adran 10 - os mabwysiadir y cynnig i ganiatáu i'r Comisiynydd roi'r gorau i ymchwiliadau, bydd adran 10 yn ddiangen. Os yw'n aros, dylid ystyried gwneud y Pwyllgor yn gyfrifol yn hytrach na'r Cadeirydd.

**Ateb 9.** Mae achos cryf dros rymuso'r Senedd i'w gwneud yn ofynnol i ad-dalu gwariant yr eir iddo o ganlyniad i gamymddwyn gan Aelod. Yn fy adroddiad ar fy ymchwiliad i gŵyn yn erbyn Gareth Bennett AC (Adroddiad 01-19 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9) darganfûm fod ei fethiant i gydweithredu â'm hymchwiliad wedi arwain at wariant o £500 o leiaf. Nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw bŵer i fynnu ei fod yn talu'r swm hwnnw - ni allai ond ei wahodd i'w dalu. Ni wnaed unrhyw ad-daliad. O dan y fath amgylchiadau, mae'n anorfod y bydd yr anallu i sicrhau taliadau yn lleihau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Senedd. Dylai unrhyw sancsiwn newydd hefyd gwmpasu adennill symiau a gafwyd neu a ddefnyddiwyd yn amhriodol at ddiben amhriodol, megis defnyddio adnoddau'r Comisiwn i dalu staff cymorth Aelodau am wneud gwaith gwleidyddol y blaid.

Nid oes ar gael i unrhyw ddeddfwrfa arall yn y Deyrnas Unedig bŵer i argymell diarddel, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw achos neilltuol dros gyflwyno'r fath bŵer yn y Senedd. Mae pŵer i argymell bod Aelod yn destun gweithdrefn deisebu i adalw ar gael i Dŷ'r Cyffredin, ond mae'r gwahaniaethau yn y systemau etholiadol yn golygu bod cyflwyno pŵer o'r fath yng Nghymru yn broblemus. Byddai angen ystyriaeth ofalus iawn ac ymgynghori eang.

Fy mhrif bryder ynghylch sancsiynau yw bod eu lefel yn ymddangos yn sylweddol isel ac yn anghyson â'r rhai a osodir ar gynghorwyr Cymru, Aelodau Tŷ'r Arglwyddi, Aelodau Seneddol, Aelodau Senedd yr Alban ac Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon am weithredoedd o gamymddwyn tebyg. I sicrhau bod lefel y sancsiynau a argymhellir i'r Senedd yn cyfateb yn fras i'r sancsiynau mewn mannau eraill, ac i wneud y broses yn fwy tryloyw, dylid ystyried creu dogfen sy'n cyfateb i'r canllawiau

a gyhoeddwyd gan Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr. Dylai dogfen o'r fath gynnwys y ffactorau gwaethygol a’r ffactorau lliniarol y bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw iddynt wrth benderfynu ar y sancsiwn a argymhellir. Dylai'r ffactorau lliniarol gynnwys derbyn yn gynnar bod y Cod wedi’i dorri lle mae hynny’n osgoi'r angen am ymchwiliad llawn ac felly yn arbed amser a gwariant. Dylai ffactorau gwaethygol gynnwys unrhyw fethiant i gydweithredu â'r ymchwiliad ac ymddygiad blaenorol yr Aelod.

**Ateb 10.** Rwy’n credu bod y terfyn amser presennol o 12 mis yn rhy hir ac y dylid ei fyrhau i chwe mis. Os yw'r system gwynion am gadw hygrededd mae'n bwysig delio â chamymddwyn yn brydlon. Mae'n debygol y bydd yn cymryd o leiaf chwe mis rhwng cwyn yn cyrraedd y Comisiynydd a’r amser y caiff ei hystyried yn y Senedd. Mae’r terfyn presennol o 12 mis yn golygu ei bod yn gallu bod dros 18 mis ers y camymddwyn. Yn fy marn i, byddai terfyn o chwe mis, sef y terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniadau diannod a’r un ym mhroses gwynion Gogledd Iwerddon, yn fwy priodol.

Rwy'n cydnabod y byddai achlysuron lle byddai rheswm da dros beidio â gwneud cwyn o fewn chwe mis. Er mwyn darparu ar gyfer y rhain, dylid grymuso'r Comisiynydd Safonau i ystyried cwynion y tu allan i'r cyfnod hwnnw os yw'n fodlon bod rheswm da dros yr oedi cyn iddynt gael eu cyflwyno. Gellid gwneud penderfyniad y Comisiynydd i beidio â defnyddio'r disgresiwn hwnnw yn ddarostyngedig i'r weithdrefn atgyfeirio a amlinellir yn Ateb 8 uchod.

**Ateb 11.** Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, nid y Comisiynydd Safonau, sy'n penderfynu a dorrwyd y Cod neu ddarpariaeth berthnasol arall. Er mwyn ei alluogi i wneud penderfyniad deallus, credaf ei bod yn hanfodol bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys yr holl ddeunydd y seiliwyd casgliad yr adroddiad arno. Mae cyfiawnder naturiol yn mynnu y dylai’r achwynydd a'r Aelodau sy'n destun ymchwiliad hefyd fod yn ymwybodol o'r holl dystiolaeth berthnasol. Weithiau bydd y dystiolaeth honno'n cynnwys gwybodaeth bersonol iawn neu wybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd yng nghyfarfod preifat plaid wleidyddol. Ni ddylid gwneud gwybodaeth o'r fath yn gyhoeddus. Yr arfer presennol yw i'r Pwyllgor gyhoeddi adroddiad y Comisiynydd fel atodiad i'w adroddiad i'r Senedd. Ni welaf angen i'r Senedd weld adroddiad y Comisiynydd nac i’r adroddiad gael ei gyhoeddi. Mae adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r ffeithiau allweddol. Mae a wnelo'r Senedd ag a ddylid cymeradwyo'r sancsiwn a argymhellir gan y Pwyllgor ai peidio ac nid oes angen iddi, at y diben cyfyngedig hwnnw, weld adroddiad manwl y Comisiynydd.

Ffordd arall o osgoi cyhoeddi deunydd sensitif fyddai ei hepgor o'r fersiwn o adroddiad y Comisiynydd sy’n cael ei atodi i adroddiad y Pwyllgor. Gall golygu’r

deunydd hyn fod yn ymarfer llafurus iawn ac yn aml bydd y ddogfen yn anodd ei deall. Nid wyf yn ei ffafrio fel ateb.

Trydydd opsiwn fyddai i'r Comisiynydd neu'r Pwyllgor baratoi adroddiad cryno y gellid ei atodi i adroddiad y Pwyllgor i'r Senedd. Byddai hynny'n cymryd llawer o amser a byddai'n arwain at dri adroddiad ar bob cwyn: adroddiad llawn y Comisiynydd, yr adroddiad cryno, ac adroddiad y Pwyllgor. Mae'n debyg y byddai adroddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu bron y cwbl o gynnwys yr adroddiad cryno. Nid wyf yn ei ffafrio fel ateb.

**Cwestiwn 12**. O ystyried natur annibynnol Comisiynydd Safonau'r Senedd, ni welaf unrhyw gyfiawnhad dros y broses apelio bresennol: mae’n ychwanegu cost, a gall yr Aelodau sy'n destun ymchwiliad hefyd ei defnyddio i ohirio'r broses gwynion ymhellach, a gall hynny danseilio hyder y cyhoedd yn uniondeb y broses. Mae casgliad y Comisiynydd ynghylch a yw'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri ai peidio eisoes yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad trawsbleidiol. Ac er na all y Senedd gynnal adolygiad o'r dystiolaeth, gall benderfynu peidio â chymeradwyo gosod y sancsiwn a argymhellir gan y Pwyllgor. Os yw Aelod o'r farn bod penderfyniad y Pwyllgor yn wrthnysig, gellir ei herio trwy adolygiad barnwrol

**Douglas Bain CBE TD**

**Comisiynydd Safonau Dros Dro y Senedd** 21 Ionawr 2021.